
**LLESIANT CYMRU YN Y DYFODOL:
TRAWSNEWID GWASANAETHAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL
YN AGOS AT GARTREF**

Adroddiad

ar gyfer Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Carolyn Wallace a Mark Llewellyn

Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru · Prifysgol De Cymru

Comisiynwyd gan CGGC a'i ariannu gan Gronfa Bontio'r UE Llywodraeth Cymru

Mehefin 2020



CYNNWYS

1.	CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN	2
2.	DULL	3
3.	CANFYDDIADAU	5
4.	TRAFODAETH A CHASGLIADAU	17

1. CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN

Mae'r Athro Carolyn Wallace a'r Athro Mark Llewellyn o Brifysgol De Cymru wedi bod yn gweithio gyda CGGC i greu darlun o rôl y sector gwirfoddol yn y dyfodol wrth sicrhau llesiant pobl Cymru. Comisiynwyd yr astudiaeth hon i archwilio rôl mudiadau gwirfoddol fel dylanwadwyr, cefnogwyr a darparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn agos at gartref, o fewn cyd-destun 'Cymru Iachach', Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Brexit.

PWRPAS YR ASTUDIAETH

Gofynnodd y fanyleb i ni archwilio rôl mudiadau gwirfoddol fel dylanwadwyr, cefnogwyr a darparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn agos at gartref. Nododd fod mudiadau gwirfoddol, yn hanesyddol, wedi bod ac yn parhau i fod yn ddarparwyr gwasanaethau gofal a chymorth rheng-flaen a'u bod yn cael eu cydnabod fel partneriaid allweddol wrth gyflawni gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy a di-dor.

O'r cychwyn cyntaf, gofynnodd CGGC i ni ystyried y cyfleoedd i fudiadau gwirfoddol fod yn ddarparwyr mewn marchnad iechyd a gofal cymdeithasol cymysg sydd wedi'i chynllunio'n greadigol ac i ystyried y mecanweithiau allweddol y gallai mudiadau'r sector gwirfoddol eu defnyddio a sut i gyfrannu at drawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ogystal, roedd yr astudiaeth yn ystyried pa rôl y gall mudiadau gwirfoddol ei chael wrth gefnogi pobl i gymryd cyfrifoldeb am eu hanghenion iechyd, llesiant a gofal eu hunain drwy gymryd rôl lawn wrth gynllunio gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru ar ôl Brexit.


Yn wreiddiol, cynigiwyd astudiaeth oedd yn cynnwys cyfres o dri gweithdy trafod i archwilio'r materion gyda rhanddeiliaid allweddol o fewn y sector gwirfoddol i lywio datblygiad yr adroddiad (y papur gwyntyllu) ar gyfer yr astudiaeth. Serch hynny, roedd cyfyngiadau symud COVID-19 yn golygu nad oedd modd gwneud hynny. Felly, fel yr amlinellir isod, defnyddiwyd dull arall o gynnal yr astudiaeth.

Roedd hyn yn cynnwys meddwl yn ehangach am yr amrywiaeth o ddylanwadau ar y sector gwirfoddol ar hyn o bryd, ac ystyried y rôl y gallai ac y dylai mudiadau gwirfoddol ei chael wrth sicrhau mwy o lesiant i boblogaeth Cymru ar ôl 2020. Roedd hefyd yn cynnwys symud i astudiaeth dau gam lle defnyddiwyd dull datblygu consensws ar-lein yn y lle cyntaf i gynhyrchu cyfres o gysyniadau thematig a datganiadau allweddol, a gweithdy cydweithredol ar-lein i rhanddeiliaid i fwrw golwg ar ganfyddiadau'r cam cyntaf ac i nodi blaenoriaethau allweddol ar gyfer y sector.

2. DULL

Cynhaliwyd yr astudiaeth gyfan rhwng 20fed Ebrill a 2il Mehefin 2020. Gofynnwyd am gymeradwyaeth moesegol a gwnaethpwyd hynny gan banel moesegol risg-isel Cyfadran Gwyddorau Byw ac Addysg Prifysgol De Cymru.

Roedd dwy ran ddilyniannol i'r astudiaeth hon gan ddefnyddio dau ddull consensws gwahanol (Ffigur 1). Defnyddiodd Rhan 1 ddull consensws ar-lein o'r enw Mapio Cysyniadau Grŵp i archwilio rôl y mudiadau gwirfoddol wrth gyflawni mwy o lesiant i boblogaeth Cymru, a defnyddiodd Rhan 2 ddiwyddiad cydweithredol ar-lein i randdeiliaid i archwilio'r canfyddiadau a gofyn 'beth sydd angen i'r sector gwirfoddol ei wneud nesaf?'



Ffigur 1: Y broses ymchwil

RHAN 1: MAPIO CYSYNIADAU GRŴP

Eglurodd hyn rôl mudiadau gwirfoddol wrth gyflawni mwy o lesiant i boblogaeth Cymru drwy ddefnyddio tri gweithgaredd y dull Mapio Cysyniadau Grŵp (GCM); cynhyrchu datganiadau, didoli a threfnu datganiadau fesul thema gyda labeli a sgorio pob datganiad o ran pwysigrwydd ac effaith ar lesiant. Rhoddodd GCM gyfle i grwpiau rhithwir o gyfranwyr oedd ar wasgar yn ddaeryddol (gweithwyr neu wirfoddolwyr y sector gwirfoddol) gymryd rhan drwy ddefnyddio meddalwedd ar-lein i'w helpu i drefnu a chyflwyno eu syniadau gyda chefnogaeth hwylusydd hyfforddedig. Atebodd y cyfranwyr bum cwestiwn am ddemograffeg:

- Sut byddech chi'n diffinio eich rôl?
- Ym mha ran o Gymru rydych chi'n gweithio fwyaf?
- Pa ymadrodd sy'n disgrifio'r maes rydych chi'n gweithio ynddo?
- Math a maint o fudiad gwirfoddol rydych yn gweithio ynddo?
- Iaith: ydych chi'n darparu cymorth drwy ..[rhestr o opsiynau]

Defnyddiodd methodoleg y GCM o dan arweiniad hwylusydd feddalwedd Group Wisdom™ i gasglu, integreiddio a dadansoddi data, a chyflwynwyd y canlyniadau yn ddiweddarach i

gyfranwyr yr ail ddull. Cynhaliwyd rhan gyntaf yr astudiaeth hon yn ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Defnyddiodd ddadansoddiad data rhan 1 feddalwedd ar-lein i gynnal pedwar cam o ddadansoddi data yn dilyn prosesau adolygu, glanhau a derbyn data:

- Cam 1 – Dadansoddwyd ymatebion demograffig cyfranwyr drwy ddefnyddio ystadegau disgrifiadol.
- Cam 2 – Crëwyd matrices tebygrwydd o'r datganiadau a ddidolwyd gan y cyfranwyr. Mae hyn yn dangos nifer y cyfranwyr a drefnodd y datganiadau gyda'i gilydd.
- Cam 3 – Dadansoddiad sgorio aml-ddimensiwn o'r matrices tebygrwydd a gynhyrchodd fap pwyntiau. Dyrennir pwynt ar echel dau ddimensiwn (XY) i bob datganiad gan gyfranwyr (Ffigur 7).
- Cam 4 – Algorithm Ward a ddefnyddir mewn dadansoddiad clwstwr hierarchaidd o ddatganiadau clwstwr i gynhyrchu map clwstwr gyda labeli clwstwr (gweler Ffigur 6), sgorio clwstwr (Ffigurau 7 ac 8), dadansoddiad *go-zone* (Ffigur 9) i adnabod y pum prif ffordd y dylai mudiadau gwirfoddol eu hystyried wrth sicrhau mwy o lesiant i boblogaeth Cymru; ac adroddiad paru patrymau ar unrhyw wahaniaethau rhwng ymatebion dinas/tref/cymoedd ac ymatebion gwledig i bwysigrwydd llesiant ac effaith ar lesiant.

RHAN 2: DIGWYDDIAD CYDWEITHREDOL AR-LEIN I RANDDEILIAID

Defnyddiwyd digwyddiad ar-lein i ofyn i gyfranwyr adolygu'r canfyddiadau a chanolbwyntio ar bedwar cwestiwn allweddol:

1. Beth yw eich argraffiadau cyntaf?
2. Sut dylem ddehonglir' data?
3. Beth ddylen ni wneud â'r data?
4. Beth sydd angen i'r sector gwirfoddol wneud nesaf?

Ni chafodd y digwyddiad ei recordio ond cymerwyd nodiadau o'r drafodaeth gan y ddau hwylusydd. Cynhaliwyd y dadansoddiad mewn ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd.

3. CANFYDDIADAU


RHAN 1: NODI RÔL MUDIADAU GWIRFODDOL WRTH SICRHAU MWY O LESIANT I BOBLOGAETH CYMRU

3.1 PWY OEDD Y CYFRANWYR?

Cafodd pumdeg o gyfranwyr eu recriwtio drwy ddefnyddio samplu bwriadol ac fe'u cofrestrwyd ar feddalwedd Group Wisdom™. Fe'u recriwtiwyd drwy rwydweithiau CGGC. Cwblhaodd y cyfranwyr y canlynol:

- Cwestiynau cyfranwyr- n=45
- Gweithgaredd taflu syniadau- n=38
- Gweithgaredd didoli gorffenedig - n=26
- Gweithgaredd sgorio pwysigrwydd gorffenedig- n=32
- Gweithgaredd sgorio effaith ar lesiant gorffenedig - n=24

Diffiniodd y rhan fwyaf o'r cyfranwyr eu rôl fel gweithwyr cyflogedig (70%) tra bod 8% o'r cyfranwyr yn weithwyr cyflogedig ac yn wirfoddolwyr (Ffigur 2).




DEWIS	FAINT	%
Gwirfoddolwr	6	12%
Gweithiwr cyflogedig	35	70%
Y ddau	4	8%
Dim ymateb	5	10%
Cyfanswm	50	100%

■ Gwirfoddolwr/ Volunteer ■ Gweithiwr cyflogedig/ Paid worker ■ Both/y ddau ■ Did not respond/Dim ymateb

Ffigur 2: Diffinio rôl y cyfranwyr

Roedd y cyfranwyr yn gweithio ym mhob rhanbarth o Gymru (Ffigur 3). Fe wnaethant ddisgrifio eu hunain yn bennaf fel gweithio'n y de (42%), gorllewin (21%), gogledd (18%) a'r dwyrain (13%).

Gofynnwyd i gyfranwyr nodi eu hunain fel gweithio mewn lleoliadau trefol, dinesig, cymoedd neu leoliad gwledig (Ffigur 4). Rhoddwyd cyfle iddyn nhw ddewis mwy nag un ymadrodd. Cafodd y lleoliadau dinesig a gwledig eu cynrychioli'n gyfartal (28% yr un) gyda'r cymoedd yn cael eu cynrychioli leiaf (13%).



DEWIS	NIFER	%
Tref	21	25%
Dinas	23	28%
Cymoedd	11	13%
Gwledig	23	28%
Dim ymateb	5	6%
Cyfanswm	50	100%

■ Tref/Town ■ Dinas/City ■ Cymoedd/ Valleys ■ Gwledig/rural ■ Did not respond/Dim ymateb

Ffigur 3: Disgrifiad o'r ardal roeddent yn gweithio ynddi

Roedd y rhan fwyaf o gyfranwyr yn darparu cymorth yn Gymraeg neu'n Saesneg (56%) tra bod 28% yn cyfathrebu'n Saesneg yn unig a 6% yn rhoi cymorth drwy gyfuniad o ieithoedd eraill. Gweithiodd y cyfranwyr yn bennaf i fudiadau gwirfoddol lleol (34%) gyda 6% yn unig yn gweithio i fudiad ledled y DU (Ffigur 4).



DEWIS	NIFER	%
Ledled y DU	6	12%
Ledled Cymru	12	24%
Rhanbarthol	10	20%
Lleol	17	34%
Dim ymateb	5	10%
Cyfanswm	50	100%

■ Ledled y DU/ UK wide ■ Sefydliad Cymru i gyd/ All Wales organisation ■ Sefydliad Rhanbarthol/ Regional organisation
 ■ Sefydliad Lleol/ Local organisation ■ Did not respond/Dim ymateb

Ffigur 4: Maint a math o fudiad gwirfoddol.

3.2 NODI A DADANSODDI'R 110 O FFYRDD Y DYLAU MUDIADAU GWIRFODDOL HELPU POBL I GYFLAWNI MWY O LESIANT

Gweithgaredd 1 – Taflu Syniadau

Yn ystod y gweithgaredd hwn n=38 darparodd y cyfranwyr 110 o ddatganiadau i gwblhau'r cwestiwn ar-lein 'ar ôl 2020, rwy'n credu y dylai mudiadau gwirfoddol helpu pobl i gyflawni

mwy o lesiant drwy...' Gellir gweld enghreifftiau o'r datganiadau yn Nhabl 1.¹ Ni chafodd unrhyw ddatganiadau eu diystyru, eu hail-lunio na'u rhannu. Cafodd tri datganiad eu darparu yn Gymraeg.

Datganiad rhif	Datganiad
1	Sicrhau bod pobl o fewn cymunedau yn cynllunio'r rhaglen ddigwyddiadau. A bod y rhaglen yn gynhwysol.
2	Sicrhau eu bod yn cael symiau sylweddol o gyllid i barhau â'r gwaith sydd wedi'i ddechrau - gwaith sydd wrth wraidd cymunedau, ac yn cyrraedd y rheini ar gyrion cymdeithas.
3	Parhau i weithio â'r gwasanaethau statudol i gyrraedd y rhai anoddaf i'w cyrraedd. Mae'r ymateb i Covid-19 wedi dangos sut mae'r gwasanaethau statudol wedi dibynnu ar waith y trydydd sector a mudiadau gwirfoddol i gadw i fynd.
4	Bod yn sbardun i newid yn eu hardal ddaearyddol.

Tabl 1: Y pedwar datganiad cyntaf a ddarparwyd gan gyfranwyr

Gweithgaredd 2 – Grwpio/didoli

Yn y gweithgaredd hwn, gofynnwyd i gyfranwyr ddidoli a grwpio'r holl ddatganiadau yn bentyrrau, ac i roi label unigol ar bob pentwr. Cynhyrchodd y feddalwedd fap pwyntiau sy'n dangos pob un o'r 110 o ddatganiadau (Ffigur 5).




Ffigur 5: Map pwyntiau a gynhyrchwyd gan gyfrifiadur o'r 110 o ddatganiadau

¹ Mae'r rhestr lawn o ddatganiadau ar gael gan yr awduron.

Roedd gan y set ddata werth straen terfynol o 0.2863 – yr ystod derbyniol yw 0.205-0.365, felly ystyrir bod hyn yn debyg i ddibynadwyedd (Kane and Trochim, 2007).² Mae'r gwerth straen wedi'i leoli tua chanol yr ystod ac felly fe'i hystyrir yn ffit da. Po agosaf oedd y datganiadau (a gynrychiolir gan bwynt) at ei gilydd, amlaf y cawsant eu didoli gyda'i gilydd gan gyfranwyr. Er enghraifft, mae datganiadau 103 a 102 yn agos at ei gilydd ac felly wedi cael eu didoli gyda'i gilydd amlaf. Tra bod datganiad 102 a 25 ar ddau ben y map ac ni chawsant eu didoli gyda'i gilydd yn aml neu o gwbl.

Mae'r feddalwedd yna'n creu map clwstwr lle'r oedd y datganiadau wedi'u dosbarthu ar draws saith clwstwr - Y broses rymuso, cyfathrebu, gwella cysylltiadau rhwng y sectorau statudol a gwirfoddol, cynllunio strategol, ymgyrchu, gwirfoddoli a grymuso eu cymunedau (Ffigur 6). Mae lleoli datganiadau mewn clwstwr yn deillio o'r cyfranwyr yn grwpio ac yn sgorio pob datganiad. Er enghraifft, mae datganiad 91 'gweithio gyda dinasyddion fel partneriaid cyfartal' wedi'i leoli yn y clwstwr 'proses rymuso' oherwydd dyna lle gosododd y rhan fwyaf o gyfranwyr y datganiad. Dangosir y berthynas gysyniadol rhwng clystyrau yn ôl y pellter rhyngddynt. Felly mae'r clwstwr sy'n cael ei alw'n 'proses rymuso' yn agosach at 'grymuso cymunedau' a 'chyfathrebu' nag i'r pedwar clwstwr arall.



Ffigur 6: Map clwstwr gyda labeli o'r ymarfer grwpio gyda chyfranwyr

Clwstwr y broses rymuso gafodd y datganiadau mwyaf (n=29) gyda gwella cysylltiadau rhwng y sectorau statudol a gwirfoddol yn ail agos (n=25); tra bod y clwstwr ymgyrchu wedi cael y nifer

² Kane, M., and Trochim, W. M. K. (2007). *Concept Mapping for Planning and Evaluation*. Thousand Oaks, CA: Sage


lleiaf o ddatganiadau (n=8). Mae Tabl 2 yn dangos nifer y datganiadau fesul clwstwr a Thabl 3 (drosodd y dudalen) yn darparu tair enghraifft o ddatganiadau fesul clwstwr.³

Dyfaeis	Proses rymuso	Cyfathrebu	Gwella cysylltiadau rhwng sectorau	Cynllunio strategol	Ymgyrchu	Grymuso eu cymunedau	Gwirfoddoli
Nifer y datganiadau	29	10	25	15	8	12	11
Sgôr cyfartalog pwysigrwydd datganiad	4.02	3.92	3.97	3.64	3.65	3.41	3.74
Sgôr cyfartalog o effaith y datganiad ar lesiant	3.85	3.43	3.27	3.07	3.38	3.53	3.63

Tabl 2: Nodweddion clystyrau

Gweithgaredd 3 – sgorio pwysigrwydd ac effaith ar lesiant

Yn y gweithgaredd hwn gofynnwyd i'r cyfranwyr sgorio pob un o'r 110 o ddatganiadau drwy ddefnyddio pwysigrwydd ac effaith ar lesiant ar raddfa tebyg i Likert. Mae'r mapiau sgorio clystyrau yn Ffigur 7 (a Thabl 2 uchod) yn dangos bod y clwstwr o'r enw 'y broses rymuso' yn cael ei ystyried y pwysicaf o'r saith clwstwr, wrth ystyried ffyrdd y dylai mudiadau gwirfoddol helpu pobl i gyflawni mwy o lesiant (4.02).




Ffigur 7: Map sgorio clystyrau – pwysigrwydd ffyrdd y dylai mudiadau gwirfoddol helpu i gyflawni mwy o lesiant

³ Mae'r rhestr lawr o ddatganiadau fesul clwstwr ar gael gan yr awduron.

Rhif.	Geiriad
Y BROSES RYMUSO	
1	Sicrhau bod pobl o fewn cymunedau yn cynllunio'r rhaglen ddigwyddiadau. A bod y rhaglen yn gynhwysol.
4	Bod yn sbardun i newid yn eu hardal ddaearyddol.
7	Gofyn i bobl beth maen nhw ei eisiau/ei angen, gan alluogi pobl i gefnogi eu cymunedau lleol eu hunain mewn ffyrdd perthnasol gyda dull mwy cyfranogol lle mae rhywun yn gweithio "gyda nhw" yn hytrach nag "ar eu cyfer".
GWELLA CYSYLLTIADAU RHWNG Y SECTOR STATUDOL A'R 3YDD SECTOR	
3	Parhau i weithio gyda'r gwasanaethau statudol i gyrraedd y rhai anoddaf i'w cyrraedd. Mae'r ymateb i Covid-19 wedi dangos sut mae'r gwasanaethau statudol wedi dibynnu ar waith y trydydd sector a mudiadau gwirfoddol i gadw i fynd.
5	Rwy'n credu ei fod yn fater o sut mae comisiynwyr a phartneriaid statudol yn ein helpu ni i gyd i gael mwy o lesiant – mae deddfwriaeth yng Nghymru yn nodi y dylem i gyd fod yn gweithio gyda'n gilydd. Mae Covid-19 wedi dangos gwerth caredigrwydd dynol ac effaith gwirfoddolwyr.
16	Tarfu ar y system – chwalu rhwystrau rhwng iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector.
CYFATHREBU	
23	Cael mwy o lais yn y broses gomisiynu drwyddi draw – o nodi anghenion, cynllunio ymyriadau, cyflawni a chyd-werthuso.
25	Adfywio cynghorau tref a chymuned fel eu bod yn wirioneddol dan arweiniad dinasgyddion ac yn atebol yn lleol am fuddsoddi cyllid lleol (praesept) mewn asedau a gweithgareddau sy'n bwysig i bobl leol.
31	Sicrhau bod eu cefnogaeth yn seiliedig ar egwyddorion cyd-gynllunio a chyd-gynhyrchu.
CYNLLUNIO STRATEGOL	
2	Sicrhau eu bod yn cael symiau sylweddol o gyllid i barhau â'r gwaith sydd wedi'i ddechrau - gwaith sydd wrth wraidd cymunedau, ac yn cyrraedd y rheini ar gyfrion cymdeithas.
8	Sicrhau eu bod yn dangos tystiolaeth o'r gwahaniaeth a wnânt i gymdeithas - gan gysylltu â phartneriaid statudol i sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau (adnoddau ariannol ac dynol).
10	Drwy allu lobbio bod llesiant yn fater economaidd-gymdeithasol ac yn ddiwylliant gwaith nad yw'n iach i greu cymdeithas decach. Nid yw llesiant yn cael ei ddatrys drwy godi pris alcohol e.e. nid yw problemau yn cael eu datrys wrth wraidd y mater. Hefyd yoga mewn ysgolion!
GWIRFODDOLI	
6	Bydd yr ymateb i Covid-19 yn waddol i ni wrth werthfawrogi sut gallwn i gyd helpu eraill sy'n ei chael hi'n anodd - gall gwirfoddoli fod yn anffurfiol yn ogystal â ffurfiol. Gall pob dinesydd roi help llaw i'w cymdogion ac mae llawer mwy yn gwneud erbyn hyn.
9	Darparu gwirfoddolwyr amrywiol sy'n cynnwys cyfleoedd o dan arweiniad gwirfoddolwyr.
11	Gwneud gwirfoddoli yn fwy hyblyg a hygyrch i bobl ifanc, gweithwyr llawn amser, etc. gan fod angen gweithlu o wirfoddolwyr arnom ar gyfer y dyfodol.
YMGYRCHU	
13	Cymorth cynyddol i grwpiau lleiafrifol sy'n cael eu heffeithio'n anghymesur gan wahaniaethu, afiechyd, troseddau casineb, tlodi, camdriniaeth etc.
15	Ymgyrchu dros raglenni a gwasanaethau sy'n defnyddio dulliau holistig o wella llesiant.
33	Annog cyfleoedd 3ydd sector fel dewis da o yrfa.
GRYMUSO EU CYMUNEDAU	
26	Annog a chefnogi pobl i warchod a gwerthfawrogi natur, byw'n gynaliadwy, ailddefnyddio ac ailgylchu, datblygu cadwyni cyflenwi lleol, a diogelu adnoddau amgylcheddol yn gyffredinol.
28	Bod mor gynhwysol â phosibl drwy adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau.
32	Annog pobl ar wyliau i deimlo'n rhan o gymunedau drwy wirfoddoli, glanhau traethau etc.


Tabl 3: Enghreifftiau o ddatganiadau ym mhob un o'r saith clwstwr

Gwnaed dadansoddiad hefyd o'r clwstwr o ddatganiadau a gafodd yr effaith fwyaf ar lesiant (3.85) (ffigur 8). Yr ail glwstwr pwysicaf o ddatganiadau oedd 'gwella cysylltiadau rhwng y sector statudol a'r sector gwirfoddol' (3.97). Ystyriwyd mai'r clwstwr 'grymuso cymunedau' oedd lleiaf pwysig (3.41) ond yn y trydydd safle o sgorio'i effaith ar lesiant (3.53) y tu ôl i wirfoddoli (3.63).



Ffigur 8: Map sgorio clystrau – effaith ar lesiant

Yna defnyddiwyd y map clwstwr a'r graddfeydd sgorio i ddatblygu *Go-Zone* (Ffigur 9).



Ffigur 9: Adroddiad *Go-Zone* sy'n dangos sut mae pob datganiad yn cael ei sgorio mewn perthynas â'i bwysigrwydd a'i effaith ar lesiant.

Mae hyn yn dangos pa ddatganiadau oedd yn uwch neu'n is na'r cymedr (cyfartaledd) ar draws y ddau faen prawf sgorio a ddewiswyd sef 'pwysigrwydd' ac 'effaith ar lesiant'. Y datganiadau uwchlaw'r cymedr pwysigrwydd (3.82) oedd bwysicaf ac yn y parthau oren a gwyrdd. Y datganiadau uwchlaw'r cymedr llesiant (3.48) yw'r datganiadau sydd â'r effaith fwyaf ar lesiant h.y. y parthau gwyrdd a melyn. Mae ffigur 9 yn dangos mai'r datganiadau yn y parth gwyrdd sydd bwysicaf ac yn cael yr effaith fwyaf ar lesiant, a'r rhai yn y parth oren sydd bwysicaf ond yn cael yr effaith leiaf. Datganiadau yn y parth melyn sydd leiaf pwysig ond sy'n cael yr effaith fwyaf, a'r rhai yn y parth llwyd yw'r datganiadau lleiaf pwysig ac yn cael yr effaith leiaf. Gellir gweld datganiadau enghreifftiol o bob cwadrant yn Nhabl 4. Gall y parthau hyn fod o ddiddordeb i gomisiynwyr, gan roi syniad o'r datganiadau hynny yr hoffent eu hystyried yn y prosesau comisiynu a datgomisiynu.

Rhif.	Geiriad
CWADRANT GWYRDD [n=38]	
1	Sicrhau bod pobl o fewn cymunedau yn cynllunio'r rhaglen ddigwyddiadau. A bod y rhaglen yn gynhwysol.
2	Sicrhau eu bod yn cael symiau sylweddol o gyllid i barhau â'r gwaith sydd wedi'i ddechrau - gwaith sydd wrth wraidd cymunedau, ac yn cyrraedd y rheini ar gyrion cymdeithas.
3	Parhau i weithio gyda'r gwasanaethau statudol i gyrraedd y rhai anoddaf i'w cyrraedd. Mae'r ymateb i Covid-19 wedi dangos sut mae'r gwasanaethau statudol wedi dibynnu ar waith y trydydd sector a mudiadau gwirfoddol i gadw i fynd.
CWADRANT OREN [n=18]	
12	Bod yn ddigon dewr i stopio gwneud pethau sydd ddim yn gweithio.
16	Tarfu ar y system – chwalu rhwystrau rhwng iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector.
17	Chwalu'r seilos rhwng mudiadau a chynyddu cydweithio.
CWADRANT LLWYD [N=29]	
4	Bod yn sbardun i newid yn eu hardal ddaearyddol.
5	Rwy'n credu ei fod yn fater o sut mae comisiynwyr a phartneriaid statudol yn ein helpu ni i gyd i gael mwy o lesiant – mae deddfwriaeth yng Nghymru yn nodi y dylem i gyd fod yn gweithio gyda'n gilydd. Mae Covid-19 wedi dangos gwerth caredigrwydd dynol ac effaith gwirfoddolwyr.
8	Sicrhau eu bod yn rhoi tystiolaeth o'r gwahaniaeth a wnânt i gymdeithas - gan gysylltu â phartneriaid statudol i sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau (adnoddau ariannol ac dynol).
CWADRANT MELYN [n=25]	
6	Bydd yr ymateb i Covid-19 yn waddol i ni wrth werthfawrogi sut gallwn i gyd helpu eraill sy'n ei chael hi'n anodd - gall gwirfoddoli fod yn anffurfiol yn ogystal â ffurfiol. Gall pob dinesydd roi help llaw i'w cymdogion ac mae llawer mwy yn gwneud erbyn hyn.
9	Darparu gwirfoddolwyr amrywiol sy'n cynnwys cyfleoedd o dan arweiniad gwirfoddolwyr.
11	Gwneud gwirfoddoli yn fwy hyblyg a hygyrch i bobl ifanc, gweithwyr llawn amser, etc. gan fod angen gweithlu o wirfoddolwyr arnom ar gyfer y dyfodol.

Tabl 4: Enghraifft a chyfanswm nifer y datganiadau o bob cwadrant

Drwy archwilio'r tri deg wyth datganiad o'r cwadrant gwyrdd (y pwysicaf a'r effaith fwyaf ar lesiant), gallwn nodi'r pum datganiad uchaf a'u clystyrau.

Y datganiad uchaf yw rhif 74 'Ymgysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaethau a defnyddio eu syniadau a'u safbwyntiau, gan gynnwys plant a phobl ifanc' gyda sgôr cymedr o 4.265 a gellir dod o hyd iddo yn y clwstwr 'y broses rymuso'. Gellir gweld y pedwar datganiad uchaf arall yn 'cyfathrebu' (Rhif 96), ymgyrchu (Rhif 13), y broses rymuso (Rhif 94) a 'Grymuso eu Cymunedau' (Rhif 28) (Tabl 5).

Clwstwr	Datganiad	Effaith ar lesiant	Pwysigrwydd	Cymedr
Grymuso pobl	Ymgysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaethau a defnyddio eu syniadau a'u safbwyntiau, gan gynnwys plant a phobl ifanc.	4.05	4.48	4.265
Cyfathrebu	Adeiladu cymunedau a phartneriaethau cryfach, gan ddatblygu ystod ehangach o wasanaethau sydd ar gael i'r cymunedau a rhwydweithiau cadarn.	4.20	4.25	4.225
Ymgyrchu	Cefnogaeth gynyddol i grwpiau lleiafrifol sy'n cael eu heffeithio'n anghymesur gan wahaniaethu, afiechyd, troseddau casineb, tlodi, camdriniaeth etc.	4.20	4.22	4.21
Grymuso pobl	Gweithio ar lefel leol gyda'n cymunedau i adeiladu cymunedau cryfach a chydnerth, a all ymateb i anghenion lleol a'u diwallu.	4.00	4.41	4.205
Grymuso eu cymunedau	Bod mor gynhwysol â phosibl drwy adlewyrchu ar amrywiaeth ein cymunedau.	4.10	4.30	4.2

Tabl 5: Y pump uchaf pwysicaf gyda'r effaith fwyaf ar lesiant fesul clwstwr.

RHAN 2: DIGWYDDIAD CYDWEITHREDOL AR-LEIN I RANDDEILIAID

Yn ail ran yr astudiaeth, defnyddiwyd digwyddiad cydweithredol ar-lein i randdeiliaid gyda deg o gyfranwyr a dau hwylusydd i brofi a dilysu canfyddiadau Rhan 1. Roedd saith o'r cyfranwyr

naill ai'n rhanddeiliaid oedd yn gweithio'n yn y GIG, prifysgolion, sectorau busnes; neu uwch reolwyr y sector gwirfoddol oedd ddim yn gallu cymryd rhan yn Rhan 1. Roedd un unigolyn o CGGC yn uwch reolwr a gymerodd ran yn nwy ran yr astudiaeth. Cyflwynodd un o'r hwyluswyr y canlyniadau o ran un, tra bod y llall yn hwyluso'r drafodaeth (Patton, 2015).⁴ Y pwrpas oedd trafod y canlyniadau gan ddefnyddio'r cwestiynau canlynol.

BETH YW EICH ARGRAFFIADAU CYNTAF?

Credwyd bod y canfyddiadau yn sylfaen bwysig o dystiolaeth ar gyfer y rôl y sector gwirfoddol mewn byd lle roedd llanw a thrai o ran polisïau. Roedd yn adlewyrchu safbwyntiau cyfoes am rôl y sector gwirfoddol. Cytunodd y cyfranwyr nad oedd unrhyw beth newydd wedi'i gynnwys ond roedd y canlyniadau'n cofnodi ac yn cyflwyno'r rôl mewn ffordd newydd a amlygodd dair agwedd unigryw ar y sector gwirfoddol h.y. y broses rymuso, grymuso eu cymunedau a gwirfoddoli. Gwelwyd bod y pedwar clwstwr arall (cyfathrebu, gwella cysylltiadau rhwng y sector statudol a'r sector gwirfoddol, cynllunio strategol ac ymgyrchu) yn ffyrdd o gyflawni'r tair agwedd unigryw hyn.


Sbardunodd y canfyddiadau sgwrs ynglŷn â'r datganiadau o fewn y clystyrau, y rhwystrau gwledig wrth roi'r broses rymuso ar waith, y gallu i wneud y mwyaf o'r pum datganiad gorau, y byd digidol a llythrennedd iechyd, y newidiadau mewn perthnasoedd yn ystod y pandemig COVID-19, natur cyfnewidiol gwirfoddoli yn ystod 2020, ansawdd a thryloywder y broses o gasglu'r data.

SUT DYLEM DDEHONGLI'R DATA?

Er y teimlwyd bod y data a gyflwynwyd yn ddefnyddiol, teimlwyd y byddai dadansoddiad data pellach yn cymharu canfyddiadau gwledig v dinas/tref/cwm o bwysigrwydd ac effaith ar lesiant yn werth chweil. Mae ffigurau 10 ac 11 yn darparu paru patrymau cymharol gan ddefnyddio graffiau ysgol rhwng y ddau grŵp o gyfranwyr a'u sgoriau clwstwr. Cyflwynir paru patrymau cymharol yn hytrach nag absoliwt oherwydd bod cyfranwyr gwledig n=8 a chyfranwyr dinas/tref/cwm (n=18) wedi cwblhau'r broses o gasglu'r data.

Mae'r graff ysgol a ddangosir yn Ffigur 10 yn dangos consensws cymharol yn y ffordd yr oeddent yn sgorio pwysigrwydd tri o'r clystyrau h.y. cyfathrebu, gwella cysylltiadau rhwng y sector statudol a'r sector gwirfoddol a grymuso eu cymunedau. Mae gwahaniaeth ymhlith y grwpiau o ran y ffordd roeddent yn sgorio'r broses rymuso, gyda chyfranwyr gwledig yn ei ystyried yn bwysicach na'r grŵp 'dinas/tref/cwm'. Yn yr un modd, mae ymgyrchu, gwirfoddoli a chynllunio strategol yn cael eu hystyried yn bwysicach gan gyfranwyr dinas/tref/cwm na chyfranwyr gwledig.

⁴ Patton, M. Q. (2015). *Qualitative Evaluation and Research Methods*. Thousand Oaks, CA: Sage.




Ffigur 10: Graff ysgol sy'n cymharu newidyn pwysigrwydd rhwng cyfranwyr dinas/tref/cwm a chyfranwyr gwledig

Serch hynny, pan ystyriwn ymatebion y ddau grŵp i'r effaith ar lesiant yn Ffigur 11 (drosodd y dudalen), gallwn weld bod consensws rhwng y grwpiau ar sut y gwnaethon nhw sgorio'r broses rymuso, grymuso eu cymunedau a chynllunio strategol. Tra bo'r grŵp gwledig o'r farn bod gwirfoddoli ac ymgyrchu yn cael ychydig llai o effaith ar lesiant, ystyrir bod cyfathrebu a gwella cysylltiadau rhwng y sector statudol a'r sector gwirfoddol yn cael ychydig mwy o effaith ar lesiant yn ôl y grŵp gwledig.

BETH DDYLEN NI WNEUD Â'R DATA?

Er bod y canfyddiadau'n agored i'w dehongli, trafododd y cyfranwyr yn y digwyddiad ar-lein i randdeiliaid y posibilrwydd o ddefnyddio'r data i gyd ar gyfer cynllunio strategol. Mae'r mapiau cysyniad yn cynnig data y gellid ei ddefnyddio i gysylltu strategaeth â'r camau gweithredu. Mae'r clystyrau eu hunain yn darparu themâu neu fframwaith ar gyfer gweithredu'n y dyfodol. Gellid dadansoddi'r datganiadau ym mhob un o'r clystyrau ymhellach i ystyried y mathau o gamau a awgrymir gan eu cynnwys. Er enghraifft, mae datganiad rhif 31 'sichrau bod eu cefnogaeth yn seiliedig ar egwyddorion cyd-gynllunio a chyd-gynhyrchu' yn awgrymu camau gweithredu ar gyfer sgiliau a chamau gweithredu ar gyfer y broses o ddatblygu gwasanaethau. Gallai adeiladu fframwaith ar gyfer gweithredu hefyd roi cyfle i archwilio tystiolaeth leol ymhellach o ran yr angen am bob un o'r camau gweithredu a'r adnoddau i'w cyflawni. Mae'r paru patrymau cymharol yn Ffigurau 10 ac 11 yn awgrymu y gallai fod rhai gwahaniaethau lleol i'w hystyried.



Ffigur 11: Graff ysgol sy'n cymharu newidyn llesiant rhwng cyfranwyr dinas/tref/cwm a chyfranwyr gwledig

BETH SYDD ANGEN I'R SECTOR GWIRFODDOL WNEUD NESAF?

Gellid ystyried y pum pwysicaf gyda'r datganiadau effaith mwyaf fel datganiadau blaenoriaeth hierarchaidd ar gyfer ymgynghoriad y sector gwirfoddol wrth symud ymlaen, sy'n golygu eu bod yn galluogi'r sector gwirfoddol i ganolbwyntio'n gyflym ar y rolau penodol yr oedd cyfranwyr yr astudiaeth hon o'r farn y dylai mudiadau gwirfoddol eu gwneud er mwyn helpu pobl Cymru i gyflawni mwy o lesiant. Mae'r ddau yn canolbwyntio ar bobl a chymunedau:

1. Ymgysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaethau a defnyddio eu syniadau a'u safbwyntiau...
2. Adeiladu cymunedau a phartneriaethau cryfach...
3. Cefnogaeth gynyddol i grwpiau lleiafrifol...
4. Gweithio ar lefel leol gyda'n cymunedau i adeiladu cymunedau cryfach a chydnerth...
5. Bod mor gynhwysol â phosibl...

4. TRAFODAETH A CHASGLIADAU

Roedd cyfarfod y rhanddeiliaid yn effeithiol iawn wrth nodi cyfres o 'gamau nesaf' ar gyfer y sector. O ystyried cymhlethdod yr amgylchiadau presennol, mae'n anodd gwybod pa effaith y bydd y rhain yn ei chael dros y cyfnod sydd i ddod - yr hyn sy'n sicr yw bod yr ansicrwydd yma i aros am gryn amser. Mae'r deg pwynt yn adlewyrchu'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y cyfarfod.

TRAFODAETH – CAMAU NESAF I'R SECTOR

1. Mae'r sector gwirfoddol yn ymateb i her yr amgylchiadau presennol ond mae'n cael trafferth cadw i fyny â'r holl newidiadau sy'n digwydd. Mae angen cefnogi grwpiau a mudiadau - yn ariannol ac fel arall - os ydyn nhw am ddal ati i ymgysylltu'n effeithiol yn y byd ar ôl yr argyfwng ac ar ôl 2020.
2. Mae angen i lais parhaus y sector gwirfoddol gael ei chlywed sy'n adlewyrchu'r cymunedau hynny sydd weithiau ar y cyrion pan ddaw i drafodaethau am lesiant. Mae rhai grwpiau wedi'u heffeithio'n fwy negyddol nag eraill yn ystod y cyfnod anodd hwn, ac wrth i benderfyniadau pwysig gael eu gwneud ar ôl 2020 am ddyfodol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a modelau newydd o ofal, mae angen i'r lleisiau hynny gael eu clywed. Mae'n rhaid i ni ddechrau gyda phobl yn eu cymunedau.
3. Mae angen dull newydd o ymgysylltu sy'n sicrhau bod cymunedau yn chwarae rôl lawn yn eu llesiant eu hunain. Roedd y neges gyson i rymuso pobl a grymuso cymunedau i'w cefnogi i gyflawni eu llesiant eu hunain, i'w chlywed yn bwerus yn yr astudiaeth a'r drafodaeth ar ôl hynny. Mae hyn yn dechrau gyda gweithred wirfoddol unigolion ond mae angen iddo gael ei feithrin gan fudiadau o fewn y sector fel y gall eu partneriaid allweddol glywed y safbwyntiau hyn.
4. Ceir cyfle a risg o ran yr ymchwydd yn nifer y bobl sydd wedi dod yn wirfoddolwyr neu sydd wedi cofrestru i ddod yn wirfoddolwyr yn ystod y cyfnod hwn, er mwyn cefnogi pobl mewn angen. Yn amlwg, mae hyn yn bositif iawn, ac felly mae'n bosibl bod gwaddol enfawr i'r sector ar ôl 2020 o bobl sy'n helpu i sicrhau canlyniadau llesiant i eraill ochr yn ochr â gwella a chryfhau eu llesiant eu hunain. Y risg yw y gall pobl gael eu ddigalonni os nad ydyn nhw wedi dod o hyd i gyfleoedd gwirfoddoli yn hawdd. Mae angen datblygu strategaeth ar gyfer cadw eu cefnogaeth a'u hymgysylltiad.
5. Mae rhai mudiadau'r sector gwirfoddol wedi sylwi bod eu partneriaid o fewn y sector statudol wedi bod yn agored i ffyrdd mwy arloesol a hyblyg o weithio yn ystod i misoedd diwethaf. Mae potensial i bethau ddisgyn yn ôl ar ôl 2020, felly dylai'r sector ganolbwyntio ar gofnodi a dogfennu'r hyn sy'n galluogi'r ffordd fwy hyblyg hon o weithio i ddod yn realiti. Yna gellid ystyried y dystiolaeth hon pe bai arferion gwaith yn cael eu cwtogi yn y dyfodol.

6. Mae cymhlethdod mawr yn y berthynas sy'n bodoli, yn enwedig rhwng y sector gwirfoddol a'i bartneriaid yn y sector statudol. Mae cydweithio a phartneriaethau wedi bod yn eiriau allweddol ers blynyddoedd lawer, ond ydyn ni'n glir ynglŷn ag ystyr y termau hyn? Ceir rhwystrau i gydweithio a gweithio mewn partneriaeth, a byddai datblygu gwerthoedd a gweledigaeth gytûn yn ffordd dda iawn o sefydlu tir cyffredin. Ar un wedd, mae profiad COVID-19 wedi rhoi hwb i weithio mewn partneriaeth, gyda mwy o gydnabyddiaeth a gwerth yn cael ei roi ar waith y sector gwirfoddol i gefnogi llesiant pobl. Bydd partneriaethau effeithiol ar ôl y cyfnod hwn yn golygu mwy o hyn.
7. Sut rydym yn sicrhau bod yr ymchwydd mewn gweithredu cymunedol a'r gefnogaeth i'r sector ddim yn diflannu ar ôl y cyfnod hwn? Mae angen cryfhau'r berthynas strategol allweddol, ond yr un mor bwysig, i barhau i ymateb i anghenion pobl mewn cymunedau ledled Cymru.
8. Mae angen gwneud perthnasoedd yn gyfartal fel bod y sector gwirfoddol ddim yn teimlo'n israddol o'i gymharu â'r rheini sy'n eu comisiynu a'u cyllido. Mae rhai arwyddion o hyn yn digwydd, tuag at berthnasoedd mwy aeddfed ac ymddiriedus yn hytrach na rheoli contractau. Bydd hyn yn mynd rhywfaint o'r ffordd sylweddol i ganiatáu llais unigolion, sy'n cael eu cynrychioli gan y sector gwirfoddol, i ganolbwyntio ar lesiant.
9. O gofio pwysigrwydd technoleg ddigidol yn gyffredinol, yn arbennig yn ystod y cyfnod hwn, mae yna amrywiaeth o heriau wrth sicrhau nad yw pobl yn cael eu hymrannu'n ddigidol. Mae eu llesiant mewn perygl os nad yw hyn yn cael ei ddatrys.
10. Mae ddiffiniadau o lesiant yn cael eu herio ac yn gymhleth. Nid ychwanegu at y ddadl a'r drafodaeth oedd pwrpas yr ymarfer hwn, ond mae'n bwysig ystyried sut mae'r diffiniadau hyn yn gysylltiedig ag unigolion ar ôl 2020 fel eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ar delerau sy'n gwneud synnwyr ac yn bwysig iddyn nhw.

CASGLIADAU – DELIO Â'R NORMAU (ANHYSBYS) NEWYDD

Felly, ble mae hyn ein gadael ni a beth sy'n ein hwynebu yn y dyfodol?


Mewn sawl ffordd, gellid disgrifio'r amgylchiadau sy'n wynebu'r sector gwirfoddol yng Nghymru fel cyfnod y normal newydd. Mae rôl gynyddol i'r sector mewn gwasanaethau dan gontract o fewn yr agenda ddeddfwriaethol enfawr ac uchelgeisiol, ond sydd eto i'w gweithredu'n llawn. Mae'r cyni a welwyd yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf wedi bod yn anodd i'r sector gwirfoddol yng Nghymru, ac mae effaith Brexit a COVID-19 yn amhosibl i'w darogan. Mae yna realiti newydd hefyd o ran y berthynas rhwng y cyhoedd a'r sector gwirfoddol, sy'n effeithio ac yn newid sut mae pobl yn gweithio. Mewn rhannau o Gymru, mae'r newid hwn wedi golygu bod y berthynas o fewn y sector gwirfoddol wedi dod yn llai cydweithredol ac yn fwy cystadleuol.

RHAGOLWG 2020 – SUT BYDDWN YN EDRYCH NÔL AR Y CYFNOD HWN MEWN PUM MLYNEDD?

Beth ddylen ni ei wneud o'r negeseuon yn y papur hwn? Mae'n bwysig meddwl am y pum

mlynedd nesaf fel cyfle i ystyried y pwyntiau a wnaed uchod a gwreiddio'r arferion, diwylliannau, ymddygiadau a pherthnasoedd sy'n mynd i'r afael â'r dystiolaeth. Mae'r astudiaeth hon wedi darparu sylfaen o dystiolaeth ar gyfer seilio egwyddorion a gwerthoedd y normau newydd (ond amhenodol ar hyn o bryd).

Gan feddwl am 2025, efallai ei bod yn ddefnyddiol meddwl am sut beth fyddai perthnasoedd strategol a chynaliadwy 'da' rhwng y cyhoedd a'r sector gwirfoddol a'r hyn y mae'r astudiaeth hon yn ei ddweud wrthym amdanyn nhw. O ystyried y saith cysyniad a nodir uchod, mae'n bosibl eu gweld fel ffyrdd o sicrhau canlyniadau mwy o lesiant i bobl ar draws Cymru:



Efallai ei bod hefyd yn ddefnyddiol ystyried y pum datganiad pwysicaf a'r rhai â'r effaith fwyaf a ddeilliodd o'r astudiaeth. Wedi eu huno yn un datganiad 'meta' isod, maent yn darparu maen prawf a phwynt cyfeirio defnyddiol ar gyfer y sector o ran ei waith yn y blynyddoedd i ddod:

Ar ôl 2020, dylai mudiadau gwirfoddol helpu pobl i gyflawni mwy o lesiant drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â phawb i adeiladu partneriaethau cryfach, datblygu cymunedau mwy cydnherth, bod mor gynhwysol â phosibl drwy adlewyrchu ar amrywiaeth ein cymunedau, cynyddu'r gefnogaeth i grwpiau lleiafrifol sy'n cael eu heffeithio'n anghymesur gan wahaniaethu, a gweithio i ymateb i anghenion lleol a'u diwallu.

Y rheswm dros wneud hynny? Mae pawb, yn ddieithriad, yn cydnabod bod mwy i'w wneud i wella canlyniadau llesiant i bobl yng Nghymru. Ni all unrhyw fudiad unigol gyflawni hyn ar ei ben ei hun. Yr hyn sy'n hanfodol yma yw'r cysyniad o'r ddwy ochr - ni fydd newid yn digwydd oni bai bod y sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i wella'r sefyllfa bresennol.



wihsc

Silver anniversary · Established in 1995
Pen-blwyddarian · Sefydlwyd yn 1995

Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru

Prifysgol De Cymru, Campws Isaf Glyntaf, Pontypridd, CF37 1DL
wihsc.southwales.ac.uk · wihsc2@southwales.ac.uk · 01443 483070